



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 Rhif 943 (Cy.124)

2003 No. 943 (W.124)

**TRAFNIDIAETH
GYHOEDDUS I DEITHWYR,
CYMRU**

**PUBLIC PASSENGER
TRANSPORT,
WALES**

Rheoliadau Grant Gweithredwyr
Gwasanaethau Bysiau (Diwygio)
(Cymru) 2003

The Bus Service Operators Grant
(Amendment) (Wales) Regulations
2003

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn cwmpas gwasanaethau bysiau cymwys at ddibenion adran 154 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 ("Deddf 2000"), o'r un sydd wedi'i bennu gan Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2002 (O.S. 2002/2022) (Cy. 206), i gynnwys gwasanaethau coetsys penodol ar hyd lwybrau 15 milltir neu fwy a'r rheini'n wasanaethau sy'n gweithredu yn unol ag amserlen sefydlog, sydd i'w defnyddio gan y cyhoedd, ac sy'n darparu consesiynau tocynnau hanner-pris (ar delerau sydd wedi'u nodi ymhellach yn y Rheoliadau hyn) i bersonau sy'n 60 oed neu'n hŷn ac i bersonau y mae trwydded consesiwn teithio statudol wedi'i dyroddi iddynt (neu y gallai fod wedi'i dyroddi, oni bai am gytundeb amgen gydag awdurdod consesiynau teithio o dan adran 145(6) o Ddeddf 2000).

These Regulations extend the scope of eligible bus services for the purposes of section 154 of the Transport Act 2000 ("the 2000 Act"), from that set out in the Bus Service Operators Grant (Wales) Regulations 2002 (S.I. 2002/2022) (W.206) to include certain coach services over routes of 15 miles or more which operate in accordance with a fixed timetable, which are for use by the general public, and which provide half-fare concessions (on terms further set out in these Regulations) to persons of 60 years or older and to persons to whom a current statutory travel concession permit has been issued (or could have been, but for an alternative agreement with a travel concession authority under section 145(6) of the 2000 Act).

2003 Rhif 943 (Cy.124)**TRAFNIDIAETH
GYHOEDDUS I DEITHWYR,
CYMRU****Rheoliadau Grant Gweithredwyr
Gwasanaethau Bysiau (Diwygio)
(Cymru) 2003***Wedi'u gwneud* 27 Mawrth 2003*Yn dod i rym* 1 Mai 2003

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 154(5) o Ddeddf Drafnidiaeth 2000(a), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Diwygio) (Cymru) 2003, a deuant i rym ar 1 Mai 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2002" ("*the 2002 Regulations*") yw Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2002(b).

Diwygio Rheoliadau 2002: dehongli

3.-(1) Mewnosodir y canlynol yn rheoliad 2 o Rheoliadau 2002 (dehongli) -

- (a) o flaen diffiniad "gwasanaeth lleol" -
"ystyr "gwasanaeth coetsys domestig" ("*domestic coach service*") yw gwasanaeth bysiau-
- (a) sy'n cludo teithwyr am brisiau tocyn unigol;
- (b) sy'n gweithredu rhwng dwy arosfan raglunedig (y mae rhaid i o leiaf un ohonynt fod yng Nghymru), p'un a yw'r

(a) 2000 p.38.

(b) O.S. 2002/2022 (Cy.206).

2003 No. 943 (W.124)**PUBLIC PASSENGER
TRANSPORT,
WALES****The Bus Service Operators Grant
(Amendment) (Wales) Regulations
2003***Made* 27th March 2003*Coming into force* 1st May 2003

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by section 154(5) of the Transport Act 2000(a), hereby makes the following Regulations:

Citation, commencement and application

1.-(1) These Regulations may be cited as the Bus Service Operators Grant (Amendment) (Wales) Regulations 2003 and come into force on 1st May 2003.

(2) These Regulations apply to Wales.

Interpretation

2. In these Regulations, "the 2002 Regulations" ("*Rheoliadau 2002*") means the Bus Service Operators Grant (Wales) Regulations 2002(b).

**Amendment of the 2002 Regulations:
interpretation**

3.-(1) There are inserted into regulation 2 of the 2002 Regulations (interpretation)-

- (a) at the beginning-
- "'apex fare' ("*pris tocyn apex*") means, in relation to a journey, a fare which is payable when purchasing a ticket for that journey at least seven clear days before the date of travel and which is not more than 90% of the full adult fare which would be payable on purchasing such a ticket on the day of travel;"
- (b) after the definition of "disabled person"-
"domestic coach service" ("*gwasanaeth*

(a) 2000 c.38.

(b) S.I. 2002/2022 (W.206).

gwasanaeth yn terfynu yn un o'r arosfannau hyn neu yn y ddwy ohonynt; ac

- (c) nad yw'n wasanaeth lleol;";
(b) ar ôl diffiniad "person anabl" -

"ystyr "pris tocyn apex" ("*apex fare*"), mewn perthynas â thaith, yw pris tocyn sy'n daladwy wrth brynu tocyn ar gyfer y daith honno o leiaf saith diwrnod clir cyn y dyddiad teithio, ac sy'n bris tocyn nad yw'n fwy na 90% o'r pris tocyn llawn ar gyfer oedolyn a fyddai'n daladwy wrth brynu tocyn o'r fath ar y diwrnod teithio;

- (c) ar y diwedd -

"mae i "trwydded consesiwn teithio statudol" ("*statutory travel concession permit*") yr un ystyr â "statutory travel concession permit" yn adran 145 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000."

Diwygio Rheoliadau 2002: rheoliad 3

4.-(1) Mae Rheoliad 3 o Reoliadau 2002 (cymhwyster i gael grant) yn cael ei ddiwygio yn unol â'r ddarpariaeth ym mharagraffau (2) a (3).

- (2) Ar ddiwedd paragraff (1) mewnosodir -

"(ch) gwasanaeth coetsys domestig, i'r graddau y mae ei daith yng Nghymru ac y mae'r amodau a nodir ym mharagraff (5) yn cael eu bodloni mewn perthynas ag ef."

- (3) Mewnosodir ar y diwedd-

"(5) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(ch) yw-

(a) bod y gwasanaeth yn darparu consesiynau teithio hanner-pris (ac eithrio i bersonau sy'n teithio drwy dalu pris tocyn apex) ar nid llai na 290 diwrnod y flwyddyn ac ar nid llai nag 21 diwrnod y mis (ac eithrio mis Rhagfyr) ac ar nid llai na 12 diwrnod ym mis Rhagfyr (neu nifer pro rata y diwrnodau hynny yn ôl eu trefn os yw'r gwasanaeth yn rhedeg am ran o flwyddyn neu fis yn unig; gan dalgrynnu'r nifer gofynnol i lawr, yn ôl yr angen, i'r nifer cyfan agosaf o ddiwrnodau), i'r canlynol-

- (i) personau sydd wedi cyrraedd 60 oed; a
(ii) unrhyw berson y mae trwydded consesiwn teithio statudol gyfredol wedi'i dyroddi iddo, wrth i'r person hwnnw ddangos y drwydded, neu i unrhyw berson arall sy'n gallu dangos y byddai ganddo hawl i gael trwydded consesiwn teithio statudol oni bai am gytundeb o dan adran 145(6) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000;

coetsys domestig") means a bus service which-

- (a) carries passengers at separate fares;
(b) operates between two scheduled stops (at least one of which is in Wales), whether or not the service terminates at one or both of these stops; and
(c) is not a local service;";
(c) after the definition of "public passenger transport services"-

""statutory travel concession permit" ("*trwydded consesiwn teithio statudol*") has the same meaning as in section 145 of the Transport Act 2000;".

Amendment of the 2002 Regulations: regulation 3

4.-(1) Regulation 3 of the 2002 Regulations (eligibility for grant) is amended as provided in paragraphs (2) and (3).

- (2) At the end of paragraph (1), there is inserted -

"(d) a domestic coach service, to the extent of its travel in Wales and in respect of which the conditions set out in paragraph (5) are satisfied."

- (3) There is inserted at the end-

"(5) The conditions referred to in paragraph (1)(d) are that-

(a) the service provides half-price travel concessions (other than to persons travelling on an apex fare) on no fewer than 290 days per year and on no fewer than 21 days per month (other than December) and on no fewer than 12 days in December (or pro rata such amounts respectively if the service runs for part only of a year or month; the requirement being rounded down, as necessary, to the nearest whole number of days), to-

- (i) persons who have attained the age of 60 years; and
(ii) any person to whom a current statutory travel concession permit has been issued, on production of the permit, or to any person who can demonstrate an entitlement to a statutory travel concession permit but for an agreement under section 145(6) of the Transport Act 2000;

- (b) bod y gwasanaeth yn rhedeg o leiaf unwaith yr wythnos am gyfnod heb fod yn llai na chwe wythnos yn olynol;
- (c) bod y seddau sydd ar y cerbyd, a'r seddau hynny yn gyfrwng i ddarparu'r gwasanaeth, ar gael fel rheol i aelodau'r cyhoedd a bod y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan yr aelodau hynny;
- (ch) bod y gwasanaeth yn cael ei weithredu yn unol ag amserlen; a
- (d) bod trefniadau yn cael eu gwneud sy'n rhoi cyfle rhesymol i aelodau'r cyhoedd gael gwybod am fodolaeth y gwasanaeth, yr amserau y mae ar waith a'r lleoedd y mae'n eu gwasanaethu."

- (b) the service runs at least once per week for a period of not less than six consecutive weeks;
- (c) seats on the vehicle by means of which the service is provided are normally available to members of the general public and the service is regularly used by such members;
- (d) the service is operated in accordance with a timetable; and
- (e) arrangements are made which afford members of the general public a reasonable opportunity to inform themselves of the existence of the service, times of its operation and the places which it serves."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

27 Mawrth 2003

27th March 2003

Jane Hutt

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Minister for Health and Social Services

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£1.75

W110/04/03

ON

ISBN 0-11-090731-0



9 780110 907314